# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 12 a 19 Awst 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Biotechniwm yr Ardd Fotaneg Genedlaethol

**Lisa Francis:** O'r arian a roddwyd i achub yr ardd fotaneg genedlaethol, pa gyfran o'r arian a neilltuwyd ar gyfer biotechniwm yr ardd? (WAQ37349) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** I gynorthwyo gyda'r costau gweithredol y mae'r arian a ddarparwyd i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; nid oedd wedi'i glustnodi ar gyfer elfennau penodol.

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Lisa Francis:** A yw'n gyfreithiol bosibl i Lywodraeth Cynulliad Cymru reoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru? (WAQ37359)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad am y ffordd y mae'n defnyddio ei chyllid cymorth grant. Mae'r atebolrwydd hwn yn cael ei wireddu o ddydd i ddydd drwy weithdrefnau sydd wedi'u nodi yn y datganiad rheoli a'r memorandwm ariannol a roddir i'r llyfrgell gan y Cynulliad.

Sefydlwyd y Llyfrgell Genedlaethol drwy Siarter Brenhinol, y mae modd ei ddirymu drwy Ddeddf seneddol neu gan y Frenhines drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ni fyddai'r pwerau sydd ar gael o dan Adran 28 ac Atodlen 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn caniatáu i'r Cynulliad drosglwyddo swyddogaethau'r Llyfrgell Genedlaethol iddo ef ei hun.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Cynllun E-gymunedau

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynllun e-gymunedau? (WAQ35764) [W]

**Elin Jones:** Ar ba sail, ac ar ba awdurdod y penderfynwyd peidio â gweithredu cynllun e-gymunedau? (WAQ35765) [W]

**Elin Jones:** Faint o arian Amcan 1 ac arian cyfatebol a benodwyd ar gyfer cynllun e-gymunedau? (WAQ35766) [W]

**Elin Jones:** A oes cynlluniau i weithredu cynllun e-gymunedau yn y dyfodol? (WAQ35769) [W]

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y bydd cymunedau mwyaf ynysig a difreintiedig Cymru yn buddianu [sic] gyda thechnoleg gwybodaeth heb gynllun e-gymunedau? (WAQ35770) [W]

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 27 Mai.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Dyfarnwyd £8.03 miliwn o grant Amcan 1 i raglen e-gymunedau Awdurdod Datblygu Cymru yn erbyn cyllid cyfatebol o £8.36 miliwn. Ni wnaed unrhyw daliadau Amcan 1, na chyllid cyfatebol o gronfa cyllid cyfatebol y Ffordd i Ffyniant Llywodraeth y Cynulliad i'r prosiect e-gymunedau. Yr oedd pryder wedi codi ynghylch effeithiolrwydd y rhaglen e-gymunedau. Yn y bôn, teimlwyd ei fod yn amhriodol i'r rhaglen weithredu yn ganolog drwy un prosiect unigol, ac y byddai cefnogi prosiectau lleol, cynaliadwy a fyddai'n helpu i roi strategaeth Cymru Ar-lein Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer TGCh ar waith yn hybu adfywio cymunedol effeithiol yn well. Oherwydd hyn, ac yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, penderfynodd y WDA beidio â bwrw ymlaen gyda'r rhaglen e-gymunedau, ac felly nid oedd wedi ei flaenoriaethu o fewn cynllun busnes y WDA ar gyfer 2004-05.

Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn datblygu rhaglen a fydd yn cynorthwyo cymunedau lleol wrth iddynt baratoi eu ceisiadau ar gyfer cyllid Ewropeaidd. Bydd cymunedau yn derbyn cymorth ac anogaeth gyda'u ceisiadau, yn ogystal â chael mynediad i astudiaethau achos o brosiectau llwyddiannus o Gymru drwy wefan WEFO. Bydd yr ymagwedd hon yn sicrhau y bydd y cyfleoedd TGCh gorau ar gael gyda chymorth cronfeydd strwythurol Ewrop, sydd eisoes wedi dyrannu cyllid o £130 miliwn i 130 o brosiectau sy'n canolbwyntio ar TGCh.

Ar hyn o bryd, mae Cymru Ar-lein hefyd yn cynnal cyfres o weithdai 'Llywio'r Llygoden' ledled Cymru, a fydd yn cyflwyno sgiliau TGCh sylfaenol i'r gynulleidfa. Nod yr ymgyrch yw cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision TGCh, a gweithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r gweithdai wedi eu hanelu at nifer o grwpiau gan gynnwys addysgwyr, pobl sy'n rhedeg busnesau, pobl sy'n gweithio i elusennau a'r cyhoedd. Mae pob seminar wedi ei addasu i ddangos rhaglenni TGCh ymarferol sydd yn berthnasol i ddiddordebau penodol y bobl sy'n bresennol. Wedyn byddant yn cael eu cyfeirio at bynciau perthnasol a drafodwyd yn y seminar megis LearnDirect, canolfannau dysgu TGCh neu ganolfannau cymorth i fusnesau.

Mae rhaglen band eang Cymru yn ceisio sicrhau bod gan gymunedau fynediad i TGCh. Erbyn haf 2005, bydd gan 90 y cant o boblogaeth Cymru fynediad i fand eang, a bydd dros 260 o fusnesau bach a chanolig yn manteisio ar grantiau cymorth a fydd yn cynorthwyo busnesau i gael band eang. Mae'r rhwydwaith Dysgu Gydol Oes yn cynnig gwasanaeth cyfathrebu band eang i 82 y cant o'n hysgolion uwchradd a thros 54 y cant o'n hysgolion cynradd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cludiant i'r Ysgol (Contractau i Gwmnïau Bysiau)

**Alun Cairns:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i annog awdurdodau lleol i gynnig contractau i gwmnïau bysiau am gyfnodau hwy mewn perthynas â chludiant i'r ysgol? (WAQ37340)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae dyfarnu contractau i ddarparu cludiant i'r ysgol am gyfnodau hwy weithiau'n gallu galluogi awdurdodau addysg lleol i sicrhau gwell telerau ac o bosibl i fforddio cerbydau sydd â gwell manyleb. Cyfrifoldeb yr AALlau yw negodi contractau priodol gyda gweithredwyr cludiant lleol, gan gymryd i ystyriaeth yr angen i bwyso a mesur newidiadau yn y galwadau a'r blaenoriaethau o ran gwasanaethau cludiant i'r ysgol yn erbyn manteision posibl contractau dros dymor hwy.

### Y Rhaglen Moderneiddio Tâl

**Jenny Randerson:** Faint o arian sydd ar gael i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i dalu'n benodol am y rhaglen moderneiddio tâl? (WAQ37348)

**Jane Davidson:** Nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma. Mae faint o arian fydd ar gael yn amodol ar ganlyniad cylch cynllunio cyfredol y gyllideb, a fydd yn dod i ben yn yr hydref.

## Integreiddio Swyddogaethau ELWa â'r Gwasanaeth Sifil

**Michael German:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu trosglwyddo pwerau ELWa o dan SI2004/1576 (W162) i'r gwasanaeth sifil fel rhan o'r cynigion i integreiddio swyddogaethau ELWa â'r gwasanaeth sifil? (WAQ37354)

**Jane Davidson:** Bydd dirprwyo'r pwerau a fydd yn dod o dan gochl Llywodraeth y Cynulliad o ganlyniad i'r uno yn fater i'w ystyried maes o law. Nid yw'r penderfyniad i drosglwyddo pwerau yn arwydd o unrhyw newid o ran cyfeiriad polisi.

## Grant Dysgu'r Cynulliad

**Lisa Francis:** A oes unrhyw feini prawf sy'n bodoli eisoes, neu feini prawf sy'n cael eu hystyried, a fyddai'n rhwystro myfyriwr sydd â CGC lefel 3 mewn technoleg gwybodaeth, ac sydd wedi derbyn grant dysgu'r Cynulliad ar gyfer hynny, rhag derbyn grant arall gan y Cynulliad i ennill cymhwyster BTEC lefel 3? (WAQ37357)

**Jane Davidson:** Ni fydd myfyriwr yn gymwys i gael grant dysgu gan y Cynulliad os yw ef/hi wedi cael grant dysgu gan y Cynulliad cyn hynny i fynychu cwrs ar yr un lefel neu ar lefel uwch. O ran parhau i fod yn gymwys, rhaid i fyfyriwr ddangos ei fod yn symud ymlaen i lefel uwch o ddysgu—rhaid iddo ef neu iddi hi ddangos dilyniant.

# Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

## Datganiad Polisi Nodyn Cyngor Technegol 8

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan am ba hyd y bydd datganiad polisi Nodyn Cyngor Technegol 8 yn destun ymgynghoriad, â phwy yr ymgynghorir, a pha drefniadau sydd wedi eu gwneud i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad hwn ledled Cymru? (WAQ37334)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol Drafft 8: 'Renewable Energy' at ddibenion ymgynghori am 12 wythnos ar 13 Gorffennaf. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 8 Hydref. Cynhwyswyd amrywiaeth eang o gyrff ar restr y rhai yr ymgynghorir â hwy, yn cynnwys adrannau Llywodraeth ac asiantaethau, awdurdodau cynllunio lleol, cyrff cadwraeth ac amgylcheddol, cyrff cymdeithasol, a holl ACau ac ASau Cymru. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar 13 Gorffennaf ac mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

## Y Diwydiant Pysgota Cocos yng Nghilfach Porth Tywyn

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y diwydiant pysgota cocos yng nghilfach Porth

Tywyn? (WAQ37355)

**Carwyn Jones:** Cyfrifoldeb pwyllgor pysgodfeydd môr de Cymru yw rheoli'r bysgodfa a deallaf fod y cyfarwyddwr wedi ymateb yn uniongyrchol i bryderon a fynegwyd ar ran y casglwyr.

Hyd yma mae £202,673 wedi cael ei ddyrannu o dan gynllun cymorth ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru oherwydd achosion o wenwyn pysgod cregyn diarëig.

## Hyrwyddo Parciau Cenedlaethol Cymru

**Val Lloyd:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo parciau cenedlaethol Cymru? (WAQ37362) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Ym mis Gorffennaf 2004, lansiais wythnos y parciau cenedlaethol, sef y tro cyntaf erioed i wythnos y parciau cenedlaethol gael ei chynnal. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r parciau a'r llu o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y maent yn eu darparu. Hefyd, ym mis Medi 2004, yr wyf yn siarad yng nghynhadledd flynyddol y parciau cenedlaethol yng Nghaer-wysg, lle byddaf yn siarad am bwysigrwydd y parciau cenedlaethol i Gymru.

Yn dilyn yr adolygiad o awdurdodau'r parciau cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004, mae Llywodraeth y Cynulliad ar y cyd â phartneriaid allweddol yn datblygu cynllun gweithredu, a fydd ymysg pethau eraill yn cynnwys hyrwyddo parciau cenedlaethol Cymru.

## Pwysigrwydd Parciau Cenedlaethol Cymru

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi ei sylwadau ar bwysigrwydd parciau cenedlaethol Cymru? (WAQ37363) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Sue Essex:** Tanlinellodd yr adolygiad o awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004, bwysigrwydd y parciau cenedlaethol yng Nghymru oherwydd eu manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r parciau cenedlaethol yn ymledu dros ryw 20 y cant o ehangdir Cymru, cânt eu gweld fel y tlysau yng nghoron Cymru ac maent yn dod â budd amgylcheddol ac economaidd sylweddol.

## Gosod Ffermydd Gwynt ar Dir Comin

**Nick Bourne:** A oes yn rhaid i bob un o'r ffermwyr sy'n pori ar dir comin gytuno i osod fferm wynt arno, neu a ellir gwneud hynny os yw'r mwyafrif yn cytuno? (WAQ37367) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Sue Essex:** Fel arfer o fewn cyfraith gyffredin, mae angen cytundeb y perchennog sy'n pori anifeiliaid ar y tir a'r holl gominwyr y byddai'r cynnig yn effeithio ar eu hawliau.

Dim ond pe bai'r cominwyr i gyd yn aelodau o gorff, megis cymdeithas gominwyr, a bod trefniadau wedi eu sefydlu sy'n pennu y bydd penderfyniad drwy fwyafrif a gymeradwyir mewn cyfarfod priodol ei gyfansoddiad yn gymwys i'r aelodau i gyd y bydd cytundeb drwy fwyafrif o'r cominwyr yr effeithir arnynt yn ddigonol.

**Gweithredu'r Gronfa Genedlaethol**

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o ryddid sydd gan y Cynulliad i benderfynu ar sut y caiff y gronfa genedlaethol ei gweithredu, ac a wnaiff ddatganiad ar pam na fedrodd roi gwybod bod angen penderfyniad gan y DU ar yr agwedd hon o ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin cyn y broses ymgynghori? (WAQ37371) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Sue Essex:** Cyhoeddwyd y papur ymgynghori ar y gronfa genedlaethol ar 5 Ebrill. Yr oedd y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad wedi'u seilio ar y gyd-ddealltwriaeth o fewn y DU o'r ffordd y mae'r gronfa genedlaethol yn gweithredu, fel y'i nodwyd yn rheoliadau gweithredu drafft y comisiwn, oedd yn destun trafod ym Mrwsel ar y pryd. Gwnaed hyn yn glir yn y ddogfen ymgynghori. Mae rheoliad 795/2004 y comisiwn yn ymdrin â'r gronfa genedlaethol ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r gronfa weithredu ar lefel yr aelod wladwriaethau.

Mae pedair gweinyddiaeth amaethyddiaeth y DU yn gweithio'n agos i benderfynu ar fanylion gweithredol y gronfa o 2005 ymlaen o fewn y DU; mae fy swyddogion i â rhan lawn yn y broses honno.

Mae'r DU yn cymhwyso pecyn diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin ar sail ranbarthol. Bydd terfyn ariannol rhanbarthol penodedig i Gymru fel ag i'r pum rhanbarth arall yn y DU. O'r terfyn hwnnw, ariannir y gronfa drwy ddidyniadau o'r symiau cyfeirio ar gyfer ffermwyr unigol sydd wedi'u seilio ar gyfartaledd gweithgarwch eu fferm yn 2000-02.

**'Cynlluniau Datblygu Unedol—Arweiniad i'r Gweithdrefnau'**

**Lisa Francis:** A yw'r 'Cynlluniau Datblygu Unedol—Arweiniad i'r Gweithdrefnau' a gyhoeddwyd gan y Cynulliad yn rhoi arweiniad ac argymhellion ynghylch amseriad ymgynghoriadau cyhoeddus mewn perthynas â chynlluniau datblygu unedol ac, os felly, sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod awdurdodau parciau cenedlaethol yn glynu wrth y cyngor a roddir? (WAQ37373) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Sue Essex:** Mae cyhoeddiad Llywodraeth y Cynulliad 'Cynlluniau Datblygu Unedol—Arweiniad i'r Gweithdrefnau, 2001' yn rhoi arweiniad ynghylch ymgynghori â'r cyhoedd ym mhob cam o broses y cynlluniau datblygu unedol. Mae hwnnw, 'Cynlluniau Datblygu Unedol Cymru 2001' a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu) 1991 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi gweithdrefnau manwl o ran paratoi cynlluniau datblygu unedol, yn cynnwys amseriad y cyfnodau o ymgynghori cyhoeddus a'r dulliau o'u hysbysebu.

Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau i rybuddion cyhoeddusrwydd statudol gael eu cyflwyno ar adegau penodedig ym mhroses y cynllun datblygu unedol, a hynny mewn mannau penodol, er enghraifft yn y wasg

leol, i hysbysebu'r ffaith bod y cynllun datblygu unedol ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd. Mae swyddogion y Cynulliad yn monitro cydymffurfiaeth â hyn fel rhan o'r craffu rheolaidd ar bob cynllun datblygu unedol sy'n cael ei gynhyrchu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Adran Cofrestru Etholiadol Awdurdodau Lleol

**Ann Jones:** Faint o arian, fesul etholwr, a gafodd ei wario gan adran cofrestru etholiadol pob awdurdod lleol yng Nghymru, yn 2002-03 a 2003-04, mewn trefn ddisgynnol? (WAQ37335)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael i amlinellu gwariant yr awdurdodau lleol ar gofrestru etholiadol wedi eu nodi yn y tabl isod.

**Gwariant cyfredol net yr awdurdodau lleol ar etholiadau (wedi'i ddidoli yn ôl cost 2003-04 fesul etholwr)**

| | | **Alldro 2002-03** | | **Cyllideb 2003-04** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£/yr etholwr** | **£000** | **£/yr etholwr** | **Etholwyr 2003** |
| 1 | Gwynedd | 146 | 1.59 | 243 | 2.64 | 92,095 |
| 2 | Sir Gaerfyrddin | 252 | 1.87 | 344 | 2.56 | 134,487 |
| 3 | Wrecsam | 178 | 1.84 | 236 | 2.44 | 96,835 |
| 4 | Sir Fynwy | 125 | 1.85 | 150 | 2.22 | 67,711 |
| 5 | Blaenau Gwent | 108 | 2.03 | 118 | 2.21 | 53,150 |
| 6 | Sir y Fflint | 242 | 2.11 | 254 | 2.21 | 114,932 |
| 7 | Ceredigion | 106 | 2.00 | 110 | 2.07 | 53,066 |
| 8 | Tor-faen | 134 | 1.92 | 126 | 1.81 | 69,718 |
| 9 | Sir Benfro | 145 | 1.63 | 157 | 1.76 | 89,186 |
| 10 | Merthyr Tudful | 83 | 1.92 | 74 | 1.71 | 43,195 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Conwy | 124 | 1.40 | 145 | 1.64 | 88,397 |
| 12 | Caerffili | 270 | 2.03 | 204 | 1.53 | 132,864 |
| 13 | Castell-nedd Port Talbot | 148 | 1.38 | 164 | 1.52 | 107,566 |
| 14 | Pen-y-bont ar Ogwr | 169 | 1.66 | 149 | 1.46 | 101,675 |
| 15 | Rhondda Cynon Taf | 209 | 1.29 | 235 | 1.45 | 162,323 |
| 16 | Ynys Môn | 95 | 1.90 | 72 | 1.44 | 49,896 |
| 17 | Abertawe | 218 | 1.23 | 234 | 1.32 | 177,105 |
| 18 | Caerdydd | 215 | 0.90 | 272 | 1.14 | 238,894 |
| 19 | Sir Ddinbych | 82 | 1.23 | 73 | 1.10 | 66,502 |
| 20 | Casnewydd | 114 | 1.09 | 97 | 0.93 | 104,240 |
| 21 | Powys | 102 | 1.02 | 91 | 0.91 | 100,371 |
| 22 | Bro Morgannwg | 32 | 0.36 | 60 | 0.67 | 88,994 |
| | Cyfanswm Cymru | 3,298 | 1.48 | 3,606 | 1.61 | 2,233,202 |

## Arferion Gorau mewn Perthynas â Chofrestru Etholiadol

**Ann Jones:** Yn dilyn cwestiwn WAQ29437, a wnaiff y Gweinidog ystyried cynnal archwiliad, mewn partneriaeth â'r Comisiwn Etholiadol, i sicrhau pa awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu arferion gorau mewn perthynas â chofrestru etholiadol, a pha awdurdodau lleol nad ydynt yn gwneud hynny? (WAQ37336)

**Sue Essex:** Swyddogaeth y Comisiwn Etholiadol yw archwilio'r arferion gorau ymysg awdurdodau lleol mewn perthynas â chofrestru etholiadol. Byddaf yn cyfeirio eich cais at y comisiwn.

Mae llawer o fesurau yn ymwneud â chofrestru etholiadol wedi cael eu cynnig i gael eu cynnwys yn y Mesur Diwygio Etholiadol, a fydd gobeithio wedi cael ei wneud mewn pryd erbyn etholiadau nesaf y Cynulliad. Bydd y mesur hwn yn darparu gwell cefndir deddfwriaethol i'r broses a bydd, gobeithio, yn dileu'r angen am archwiliad i'r arferion gorau.

## Annog Awdurdodau Lleol i Fabwysiadu Arferion Gorau ar gyfer Cofrestru Etholiadol

**Ann Jones:** Yn dilyn ei hatebion i WAQ29435 a WAQ29437, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn rhoi amlinelliad o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni gan ei swyddogion, mewn partneriaeth â'r Comisiwn

Etholiadol, i annog awdurdodau lleol i fabwysiadu arferion gorau ar gyfer cofrestru etholiadol? (WAQ37337)

**Sue Essex:** Yn ddiweddar bu swyddogion y Cynulliad yn helpu'r Comisiwn Etholiadol i drefnu seminar i drafod materion oedd yn codi o etholiadau llywodraeth leol ym mis Mehefin eleni.

Comisiynodd y Cynulliad y Comisiwn Etholiadol hefyd i gynnal adolygiad o lywodraeth leol yng Nghymru ac mae i fod i gyhoeddi ei adroddiad terfynol ym mis Tachwedd. Bydd yr adroddiad yn cynnwys sylwadau ac argymhellion am gynlluniau i hyrwyddo cofrestru etholiadol yng Nghymru.

Mae adolygiad y Comisiwn Etholiadol o gofrestru etholiadol yn mynd rhagddo ac mae ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gysylltu'r cyfraddau cofrestru a diffyg cofrestru â data'r cyfrifiad. Byddaf yn gwneud yn siwr eich bod yn cael copi o'r adroddiad pan gyhoeddir ef. Mae'r Cynulliad yn dal i gynorthwyo'r Comisiwn Etholiadol i hyrwyddo'r arferion gorau ym mhob maes o'r broses etholiadol.

## Yr Hyfforddiant a'r Canllawiau a Roddir i Swyddogion Etholiadau

**Ann Jones:** Yn dilyn y gwyn gan Mencap Cymru yn gysylltiedig â gwrthod pleidlais Mr Stephen Thomas, un o'm hetholwyr (http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/3918855.stm), pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu hystyried i edrych ar yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r gwyn hon, ac unrhyw ddiwygiadau i'r hyfforddiant a'r canllawiau a roddir i swyddogion etholiadau y gallai fod eu hangen? (WAQ37345)

**Sue Essex:** Byddaf yn ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol i ofyn am ei sylwadau ar y mater hwn. Y Comisiwn Etholiadol oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r deunydd hyfforddi ar gyfer etholiadau mis Mehefin. Cafodd y deunydd ei gyflwyno i'r holl swyddogion canlyniadau lleol mewn sesiynau hyfforddi ar draws Cymru a'i raeadru wedyn i swyddogion etholiadau. Am y tro cyntaf cafodd pob clerc pleidleisio hyfforddiant ar ei rôl a'i gyfrifoldebau. Yr oedd y deunydd hyfforddi ar gael fel canllawiau cyfeirio i bob swyddog etholiad ei gadw wrth law ar ddiwrnod yr etholiad, a phwysleisiwyd pwysigrwydd gofalu am bleidleiswyr ar bob cyfle. Mater i'r Comisiwn Etholiadol yw argymell diwygio'r gyfraith etholiadol mewn unrhyw ffordd.

## Digonolrwydd y Canllawiau Presennol ar gyfer Swyddogion Etholiadol

**Ann Jones:** Yn dilyn y gwyn gan Mencap Cymru yn gysylltiedig â gwrthod pleidlais Mr Stephen Thomas, un o'm hetholwyr (http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/3918855.stm), a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba mor addas yw'r canllawiau presennol ar gyfer swyddogion etholiadol ar gyfer cynorthwyo etholwyr sydd ag anfantais feddyliol, nam ar eu golwg, neu anabledd arall i ddefnyddio eu hawl i bleidleisio? (WAQ37346)

**Sue Essex:** Cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol ganllawiau arferion da, 'Equal access to Electoral Procedures', a roddai gyngor ymarferol i staff etholiadol. Yr oedd y canllawiau wedi eu gosod yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth gyfredol a chylch gwaith y Comisiwn Etholiadol yw argymell newidiadau i gyfraith etholiadol. Ar ôl etholiadau'r Cynulliad, ar y cyd â'r Comisiwn Etholiadol, cynhaliodd y swyddogion seminar i annog gweinyddwyr etholiadol i rannu'r arferion gorau ac i ddatblygu ar y gwersi a ddysgwyd cyn hynny, yn arbennig yng nghyswllt hygyrchedd. Pan fydd y canllawiau ar gyfer etholiadau nesaf y Cynulliad yn cael eu paratoi, byddwn yn sicrhau yr ymgynghorir â'r Comisiwn Hawliau Anabledd am eu cynnwys.

## Adeilad Newydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion contractau adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol sydd eisoes wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi, gan gynnwys y costau? (WAQ37389)

**Sue Essex:** Ar 1 Gorffennaf 2003, dyfarnwyd contract cyfandaliad am y swm o £40.997 miliwn i Taylor Woodrow Construction Ltd i gwblhau'r gwaith o ddylunio ac adeiladu adeilad newydd y Cynulliad. O dan y contract hwn, mater i Taylor Woodrow Ltd yw dyfarnu isgontractau.

Rhagwelir y bydd cyfarpar TGCh yn cael ei gaffael drwy gontract MERLIN ac y bydd dodrefn rhydd yn cael eu caffael drwy gontract dodrefn y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r gofynion o ran y naill a'r llall yn dal i gael eu datblygu ac maent, felly, yn dal yn destun trafodaethau masnachol.

## Ailfandio ac Ailbrisio'r Dreth Gyngor

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad manwl ar ei bwriad i gyflwyno cynllun rhyddhad o ran ailfandio ac ailbrisio'r dreth gyngor? (WAQ37395)

**Sue Essex:** Ysgrifennais at bob Aelod Cynulliad ar 4 Awst gan ddatgan fy mod ar hyn o bryd yn ystyried cyflwyno cynllun rhyddhad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Prosiectau i Ddatblygu Ysbytai Newydd sydd wedi eu Cynllunio ar gyfer y GIG

**Nick Bourne:** Faint o brosiectau i ddatblygu ysbytai newydd sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y GIG yng Nghymru? (WAQ37330)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae 15 cynllun o'r fath wedi cael cymeradwyaeth lawn i'w hachos busnes ar hyn o bryd. Disgwylir i bump arall gael cymeradwyaeth o'r fath o fewn y misoedd nesaf.

## Arian a wariwyd ar Ddatblygu Ysbytai Newydd ers Mai 1999

**Nick Bourne:** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wario ar ddatblygu ysbytai newydd yng Nghymru ers Mai 1999? (WAQ37331)

**Jane Hutt:** Ers dechrau blwyddyn ariannol 1999-2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi £257.847 miliwn mewn symiau cyfalaf ar raglenni adeiladu ysbytai. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys oddeutu £62 miliwn o flwyddyn ariannol 2003-04, arian nad yw eto wedi cael ei gymeradwyo gan yr archwilwyr. Dylid nodi nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys gwariant ar gynlluniau sy'n cael eu hariannu o fewn y cyfalaf

dewisol a ddyrennir i ymddiriedolaethau GIG. Gan gynnwys y flwyddyn ariannol gyfredol, bu’r gwariant hwnnw’n £254.111 miliwn ers blwyddyn ariannol 1999-2000.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Helpu Pobl Mewn Cartrefi Incwm Isel i Fwyta’n Iach

**Val Lloyd:** Pa bolisïau sydd wedi’u llunio i helpu pobl mewn cartrefi incwm isel i fwyta’n iach? (WAQ37361) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Drwy ‘Bwyd a Lles’, y strategaeth genedlaethol ar faethiad i Gymru, yr ydym yn gweithredu nifer o raglenni er mwyn gwella deiet pobl Cymru. Mae ymdrin â thlodi o ran bwyd a hyrwyddo cydraddoldeb bwyd, drwy wella mynediad corfforol ac economaidd at fwyd, yn enwedig i deuluoedd ar incwm isel, yn ganolog i ‘Fwyd a Lles’. Mae mynd i’r afael â gordewdra, drwy hyrwyddo bwyta’n iach a gweithgarwch corfforol, yn un o themâu allweddol Her Iechyd Cymru ac, mewn perthynas â phobl ifanc, mae’n cael ei ystyried gan y grwp gorchwyl bwyd a ffitrwydd i blant a phobl ifanc yr wyf fi’n ei gydgadeirio.

Mae cynllun grant hybu iechyd bwyd a ffitrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, er enghraifft, yn ariannu amryw o brosiectau arloesol a fwriadwyd i gynyddu mynediad at fwyd iach, gwella sgiliau sylfaenol a rhoi sylw i faterion cost ac argaeledd. Mae Partneriaeth Garnsychan, Tor-faen, yn cael ei hariannu i wella mynediad at fwyd iach fforddiadwy yn y gymuned drwy sefydlu nifer o fentrau arloesol sy’n rhoi cymorth i grwpiau ar incwm isel i dyfu a bwyta bwyd iach. Ymysg y prosiectau eraill sy’n cael eu hariannu mae caffis cymunedol, cynlluniau tyfu a dosbarthiadau coginio.

Yn ychwanegol, mae cynllun peilot ar y gweill i ddatblygu o leiaf 26 o gwmnïau bwyd cydweithredol ledled gogledd a de-ddwyrain Cymru. Diben y cynllun yw cyflenwi ffrwythau a llysiau fforddiadwy o safon i gymunedau difreintiedig, yn cynnwys cymunedau gwledig, drwy rwydweithiau dosbarthu bwyd lleol cynaliadwy, yn arbennig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Ar ben hynny, yn rhan o ymgyrch ‘Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn’ 2004-05, bydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru yn hyfforddi addysgwyr cyfoed ledled Cymru i hyrwyddo bwyta’n iach i bobl hyn.

Mae nifer o brosiectau o fewn portffolio’r gronfa anghydraddoldebau iechyd yn cynnwys elfen faeth. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru yn cefnogi rhaglen o ddosbarthiadau bwyta’n iach yn y gymuned ac, yn Abertawe, mae cyngor proffesiynol ar ddeiet yn cael ei ddarparu mewn sefydliadau gofal sylfaenol.

Mae’r mentrau hyn yn gysylltiedig ag amrywiaeth eang o bolisïau megis Cymunedau yn Gyntaf.

### Y Grant Dadrithiad

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y grant dadrithiad ar

gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08? (WAQ37381) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** £500,000 y flwyddyn o 2004-05 tan 2007-08 yw'r ddarpariaeth grant yn y gyllideb i fynd i'r afael â dadrithiad o fewn ysgolion.

### Darpariaeth yn y Gyllideb ar Gyfer Mentrau Cyffuriau ac Alcohol

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer mentrau cyffuriau ac alcohol ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08? (WAQ37382)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** £15.6 miliwn yw'r ddarpariaeth gyfredol yn y gyllideb ar gyfer y gronfa gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau (y gyllideb ar gyfer mentrau cyffuriau ac alcohol gynt), ac mae hynny'n cynnwys £5 miliwn a drosglwyddwyd o'r Swyddfa Gartref ar gyfer y cynllun gofal drwodd ac ôl-ofal. Mae'r ddarpariaeth yn £12.3 miliwn yn 2005-06 a 2006-07. Mae lefel y cyllid yn 2007-08 yn cael ei hystyried fel rhan o gylch cyfredol cynllunio'r gyllideb.

### Darpariaeth yn y Gyllideb ar gyfer Tai ar gyfer Cyn-droseddwyr/Pobl Ifanc/Camddefnyddwyr Sylweddau

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer tai ar gyfer cyn-droseddwyr/pobl ifanc/camddefnyddwyr sylweddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08? (WAQ37383)

**Edwina Hart:** £3 miliwn ym mhob blwyddyn ariannol yw'r llinell sylfaen gyfredol yn y gyllideb o 2004-05 hyd 2006-07. Nid yw'r gyllideb ar gyfer 2007-08 ar ei gwedd derfynol eto.

### Darpariaeth yn y Gyllideb ar gyfer Trais yn y Cartref

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer trais yn y cartref ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08? (WAQ37384)

**Edwina Hart:** £1,582,000 y flwyddyn yw'r ddarpariaeth gyfredol yn y gyllideb ar gyfer y grant gwasanaethau trais yn y cartref rhwng 2004-05 a 2006-07. Yn gynwysedig o fewn y ddarpariaeth hon, ar gyfer blynyddoedd 2004-05 a 2005-6, mae elfen o gyllid ar gyfer darpariaeth cyfiawnder ieuenctid. Nid yw'n bosibl darparu unrhyw wybodaeth am 2007-08 cyn yr adolygiad gwariant.

### Darpariaeth yn y Gyllideb ar gyfer y Gronfa Cymunedau Diogelach

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y gronfa cymunedau diogelach ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08? (WAQ37385)

**Edwina Hart:** Y ddarpariaeth gyfredol yn y gyllideb ar gyfer y gronfa cymunedau diogelach yw £3,533,000

yn 2004-05, £4,933,000 yn 2005-06 a £4,933,000 yn 2006-07. Mae lefel y cyllid yn 2007-08 yn cael ei hystyried fel rhan o gylch cyfredol cynllunio’r gyllideb.